

COFRESTRU AM FYNEDIAD I eAML2



Os ydych eisoes wedi cofrestru gyda gwasanaeth FCI ar-lein BPEX, does dim angen i chi gofrestru eto – mewngofnodwch gyda'ch enw defnyddiwr a chyfrinair FCI ar-lein

1. Ewch at www.eaml2.org.uk

2. Cliciwch ar y ddolen '**Cofrestru cynhyrchydd**' yn yr hafan i fynd i'r dudalen gofrestru



3.a Cynhyrchwyr gwarantedig

- Dewiswch y cynllun yr ydych yn aelod ohono
- Rhowch eich rhif sicrwydd
- Rhowch god post y prif gyfeiriad ar gyfer eich aelodaeth
 - Pwyswch parhau

3.b Cynhyrchwyr anwarrantedig

- Rhowch farc y fuches/slap farc yr uned yr hoffech ei chofrestru
 - Rhowch god post y safle yr hoffech ei gofrestru
- Pwyswch parhau



4. Cwblhewch eich manylion cyswllt

5. Anfonir eich enw defnyddiwr a chyfrinair atoch drwy e-bost yn fuan, sy'n golygu eich bod wedi cofrestru. Gallwch fewngofnodi a defnyddio'r gwasanaeth eAML2 yn awr.

Angen cymorth?

Cysylltwch â ni ar linell gymorth eAML2

Ffôn: 0844 335 8400* Ffacs: 0247 669 2405

E-bost: eaml2@bpex.ahdb.org.uk

(*Llun-Gwener 9yb-5yh, codir tâl o 5c y funud am alwadau o linellau BT safonol)

DEFNYDDIO'R GWASANAETH



1. Eich gwasanaethau

Unwaith i chi fewngofnodi i mewn i'ch cyfrif, gallwch drefnu symudiadau ar unwaith a chofrestru eich ffôn symudol. Sicrhewch eich bod wedi cadarnhau 'Eich manylion cynhyrchu' wrth i chi ddefnyddio'r gwasanaeth am y tro cyntaf.



2. Cofrestru eich ffôn symudol – Cofrestrwch ffôn symudol i gadarnhau nifer gwirioneddol y moch a rhif cofrestru eich cerbyd drwy neges testun – gweler pwynt 6. Mae fformat y neges testun yn syml a gall fod mewn llythrennau mawr neu llythrennau bychain. Byddwch bob amser yn derbyn neges gwall neu iawn ar ôl i chi anfon eich neges testun.

Enghraifft o neges SMS:

Cyfeirnod y symudiad (o gornel dde uchaf dalen y cludwr)

BFLJ 102 hn52 abc

Nifer y moch a gadarnhawyd


Rhif cofrestru'r cerbyd

3. Anfon eich symudiad cyntaf – Bydd gofyn i chi gadarnhau eich holl fanylion cynhyrchu wrth drefnu symudiad ar-lein am y tro cyntaf. Dim ond unwaith y bydd angen i chi wneud hyn, sef y tro cyntaf i chi ddefnyddio'r safle..



4. Manylion symud – Ar y dde cewch gyngor ar sut i gwblhau'r holl gwestiynau gofynnol. Gallwch hefyd chwilio am feddyginiaethau cymeradwy a chlodwyr gyda sicrwydd Red Tractor.

5. Argraffu dalen crynhoi'r cludwr – Unwaith i chi glicio ar 'cyflwyno symudiad', bydd angen i chi argraffu'r ddalen crynhoi, sef 1 dudalen pdf, sy'n cael ei chynhyrchu'n awtomatig. Rhowch y ddalen hon i'ch cludwr neu cadwch y ddalen eich hun os chi fydd yn cludo'r moch. Mae hyn yn ofynnol yn gyfreithiol ac mae'r cludwr yn cadw'r ddogfen ei hun. Caiff y lladd-dy ei e-bostio gyda'r holl wybodaeth yn awtomatig ar ddiwrnod dyledus y llwyth.



6./7. Darparu adborth gofynnol

Mae'n rhaid i chi gadarnhau union nifer y moch sy'n cael eu llwytho a rhif cofrestru'r cerbyd sy'n cludo eich moch o fewn 24 awr, neu ni ellir cyflwyno eich symudiad i'ch awdurdod lleol.

Gallwch naill ai anfon neges testun (gweler pwynt 2.) neu ddychwelyd at eich cyfrif eAML2 ar-lein ar yr un diwrnod lle dangosir y symudiadau sy'n gofyn am adborth yn awtomatig.

8. Archif symudiadau – Dyma lle y bydd eich holl symudiadau'n cael eu harchifo'n ddiogel ar-lein ar gyfer y cyfnod sy'n ofynnol yn gyfreithiol.

9. Manylion cynhyrchu – Defnyddiwch y dudalen hon i gadw manylion eich safle yn gyfoes e.e. eich milfeddyg, systemau cynhyrchu, ac ati.

